

TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Y Mynegai: Plant Anabl yn Nhorfaen

## Beth yw'r Mynegai?

Mae'r Mynegai yn rhestr gyfrinachol o blant a phobl ifanc (0-18 oed) ag anableddau neu anghenion ychwanegol sy'n byw yn Nhorfaen. Mae'n helpu'r awdurdod lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid i:

- Gynllunio a gwella gwasanaethau lleol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd
- Rhannu gwybodaeth bwysig am y cymorth a'r gweithgareddau sydd ar gael
- Sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod eu hawliau.

## Pwy all ymuno â'r mynegai?

Gellir cynnwys eich plentyn os oes ganddo/i anabledd, angen cymorth ychwanegol, neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio'n sylweddol ar ei f/bywyd bob dydd. Gall hyn gynnwys:

- Anableddau corfforol
- Anableddau dysgu
- Awtistiaeth neu gyflyrau niwroddatblygiadol
- Namau synhwyraidd (colli clyw neu olwg)
- Cyflyrau meddygol hirdymor.

Gallwch ymuno â'r Mynegai o'ch gwirfodd ac nid yw'n effeithio ar y gwasanaethu na'r budd-daliadau yr ydych yn eu derbyn.

## Pam ddylech chi gofrestru?

Drwy ymuno â'r Mynegai, byddwch yn:

- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau, digwyddiadau a grwpiau cymorth lleol
- Helpu i lunio gwasanaethau drwy roi adborth gwerthfawr am anghenion eich plentyn.



## Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

- Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel
- Mae'n cael ei ddefnyddio i gynllunio a gwella gwasanaethau yn unig, nid ar gyfer asesiadau neu atgyfeiriadau
- Gallwch ofyn i ddiweddaru neu ddileu eich manylion ar unrhyw adeg.

## Sut ydw i'n cofrestru?

- Llenwch y ffurflen gofrestru ar-lein (trwy'r Cod QR neu ewch i wefan Cyngor Torfaen)
- Rhowch fanylion sylfaenol am anghenion eich plentyn a'ch gwybodaeth gyswllt.


## I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Tîm Plant Anabl Torfaen**

**E-bost:** **your.call@torfaen.gov.uk**

**Rhif ffôn: 01495 762200**

**Gwefan:** **Gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoed |Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**



©2025 TCBC Communications Design (4272/115) Images by Madhana Gopal from Pixabay